Cyngor Cymuned Ganllwyd

Hydref 8fed 2024

**Presennol**

Cyng D.Morris, C.Dixon,C.Edwards,G.Jones a S.Jones.

**Ymddiheuriadau**

Cyng D.Griffiths , G.Edwards a S.Roberts.

**Cofnodion Medi 2024.**

Cynnigodd Cyng C.Dixon fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng D.Morris

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod**.

Dim.

**Materion yn codi.**

Gwefan yn Neuadd y pentref- dim diweddariad.

Mast ffon Dolfrwynnog- derbyniwyd cadarnhad gan Cyng Griffiths fod y mast yn cynnwys offer a gall ei ddefnddio gan y cyhoedd i dderbyn signal.

Ysgol Ganllwyd- nid yw Cyngor Gwynedd wedi gwneud unrhyw gynnydd yn ymwneud â'u cynlluniau o drosi'r ysgol yn unedau tai.

**Caru Coed y Brenin**.

Mae cwmni Inigo Jones yn parhau hefo cynllun busnes ar rhan Caru Coed y Brenin er mwyn gwneud cais i'r CNC sy'n ymwneud â prydlesu/cymryd drosodd rhedeg y ganolfan ymwelwyr fel cyfleuster ar gyfer y gymuned.

Nodwyd bod llawer o bobl wedi mynychu'r cyfarfod cyhoeddus ar y 5ed o Hydref yng Nghoed y Brenin ac y bydd y momentwm a gafwyd gan gyfranwyr yn cael ei adlewyrchu mewn trafodaethau gyda CNC yn y dyfodol.

**Cynghorwr Sir.**

Ddim yn bresennol.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Medi 2024

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £3663.40 |
| Derbyniwyd: | |
| Preasept | £1625.00 |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £5.00 |
| Awdit mewnol Cyng Gwynedd | £360.00 |
| | |
| Yn y banc diwedd mis | £4823.40 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Fydd rhaid ail gyrru siec i'r Swyddfa Awdit yn Caerdydd wedi'r siec cyntaf fethu cyrraedd yn y post.

**Materion Cymunedol.**

Giat terfyn Ty Cerrig/Tyddyn Bach, Ganllwyd -Cyng Edwards i yrru llun i'r clerc er mwyn iddo gysylltu a'r cyngor ynglyn a cyflwr y giat.

Wedi derbyn lluniau o'r giat mae'r clerc am gysylltu gyda Sam Hollingsworth Cyngor Gwynedd ynglyn y mater.

Bydd y drefn llenwi'r biniau halen yn parhau fel o'r blaen gyda Cyngor Gwynedd gyda'r cyfrifoldeb i llenwi'r biniau.

Bydd y cynghorwyr yn rhoi gwybodaeth i'r clerc os fydd angen llenwi unrhyw fin.

**Trosglwyddo Tai Cyngor.**

Wedi trafod ymateb Cyngor Gwynedd i sylwadau'r cyngor plwyf am y pwnc yma (e-bost 9/9/2024 gan Mr Hedd Tomos) mae'r cyngor am i'r clerc i godi pwyntiau pellach ar y mater yma trwy gyrru e-bost pellach i Cyngor Gwynedd ac Cyng Ap Iago. Fydd copi o'r e-bost yn cael i ddosbarthu i'r cynghorwyr.